O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2166 (Cy. 233)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Gylchfan Cilgeti, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*31 Awst 2011*
Yn dod i rym	*12 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr - Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Gylchfan Cilgeti, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A477 yn Sir Benfro sy'n ymestyn tua'r gorllewin o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cilgeti i bwynt 2282 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan honno.